

## COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd dros y rhwydwaith yn Nhŷ Phoenix, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Caerdydd am 2.30 ar 17 Mehefin 2014

### Yn bresennol:

Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)  
Yr Athro Iwan Davies (dros y ffôn o 3.45 ymlaen)  
Mererid Jones (aelod cyfetholedig) (dros y rhwydwaith)  
Dr Rhodri Llwyd Morgan  
Gareth Pierce (aelod cyfetholedig)  
Dr Catrin Thomas

Archwilwyr: Jonathan Rees, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)  
Carol Warburton, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr  
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd  
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd  
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Croeso ac ymddiheuriadau</b>	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn swyddfa'r Coleg yng Nghaerdydd. 1.2 Nid oedd ymddiheuriadau i'w nodi.		
<b>2. Datganiadau o ddiddordeb</b>	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		
<b>3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol</b>	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2014, fel cofnod cywir.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>4. Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol</b>	<p>4.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad cynnydd yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2013/14 gan Jonathan Rees.</p> <p>4.2 Adroddwyd bod yr Archwilwyr Mewnol wedi adolygu prosesau Adnoddau Dynol y Coleg ac wedi archwilio prosesau gweithredu mewnol y Coleg ers y cyfarfod diwethaf. Cadarnhawyd y byddai adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar drefniadau rheoli risg y Coleg yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Tachwedd 2014 o'r Pwyllgor.</p> <p>4.3 Trafodwyd rhaglen waith yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2014/15 a chytunwyd y byddai'n addas iddynt ystyried y modd y mae'r Coleg yn ymateb i'r gofynion a osodir yn y Llythyr Grant oddi wrth y Cyngor Cyllido. Mae'r rhain yn cynnwys ymateb i dargedau Cenedlaethol o ran niferoedd myfyrwyr sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>4.4 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad adolygu'r archwilwyr mewnol ar Adnoddau Dynol y Coleg gan Jonathan Rees.</p> <p>4.5 Cyfeiriwyd at welliannau sylweddol yn y trefniadau adnoddau dynol a chymeradwywyd yr ansawdd, gan nodi bod hyn yn sgil penodiad yr Uwch Reolwr Materion Corfforaethol ac Adnoddau Dynol yn 2012. Mae'r strwythur craidd yn cyfateb i sefydliadau eraill o'r un maint â'r Coleg .</p> <p>4.6 Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor, esboniwyd y trefniadau ar gyfer rheoli ceisiadau gwyliau staff. Nodwyd hefyd nad oedd y fersiwn Cymraeg o'r ddogfen yn cyfateb yn gywir i ystyr y fersiwn Saesneg a bod angen i'r Archwilwyr Mewnol wirio cyfieithiadau cyn eu cyflwyno i'r Coleg.</p> <p>4.7 Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor cadarnhawyd bod gan y Coleg weithdrefnau priodol ar</p>	<p>Gwirio'r adroddiad</p>	<p>Mehefin 2014</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>gyfer holl agweddau Adnoddau Dynol, gan gynnwys cyfnodau mamolaeth. Adroddwyd ymhellach bod y Pwyllgor Staffio yn ystyried gweithdrefnau ar gyfer sefyllfa lle byddai gofyn am gwtogi niferoedd staff cyflogedig.</p> <p>4.8 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Systemau a Mesurau Rheoli Mewnol gan Jonathan Rees.</p> <p>4.9 Eglurwyd mai adolygiad dilynol oedd hwn yn sgil yr adroddiad blaenorol a luniwyd yn 2012. O'r 16 argymhelliad a nodwyd bryd hynny dim ond un sydd heb ei weithredu'n llawn.</p> <p>4.10 Cadarnhawyd bod gweithdrefnau ariannol y Coleg yn addas ac wedi eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio yn Hydref 2012.</p> <p>4.11 Derbyniwyd adroddiad llafar ar sefyllfa'r Cynllun Staffio Academaidd a'r trafodaethau ynghylch cyllido'r swyddi yn y dyfodol. Cytunwyd i gylchredeg gwybodaeth am y trefniadau monitro ar gyfer prosiectau, staffio ac ysgoloriaethau ymchwil.</p> <p>4.12 Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor, cadarnhawyd bod gan y Coleg Bolisi Diogelu Data. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn atgoffa staff o'r angen i ddilyn y polisi bob amser.</p> <p>4.13 Cytunwyd y byddai'r Archwilwyr Mewnol yn darparu amserlen a rhaglen waith ar gyfer 2014/15 ac y byddai'r ddogfen yn cael ei chylchredeg drwy e-bost.</p>	<p>Cylchredeg polisïau grantiau</p> <p>Archwilwyr Mewnol i ddarparu amserlen</p>	<p>Haf 2014</p> <p>Haf 2014</p>
<b>5. Cofrestr Risg</b>	<p>5.1 Cafwyd diweddariad ar y Gofrestr Risg gan y Cofrestrydd.</p> <p>5.2 Yn dilyn trafodaeth nodwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer newid lefel rhai risgiau, er enghraifft o isel i uchel. Cytunwyd y byddai'r Cofrestrydd yn paratoi dogfen</p>	Newidiadau a sicrhau cyfieithiad i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	Medi 2014

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>5.3 ddiwygiedig yn cynnwys yr awgrymiadau yma. Nodwyd dwy risg sylweddol sydd angen sylw penodol iddynt, sef lefel cyllideb y Coleg wedi 2016/17 a sefyllfa pensiynau staff cyflogedig y Coleg.</p> <p>5.4 Cadarnhawyd bod adroddiad ar y Gofrestr Risg yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ymhob cyfarfod oddi fewn i adroddiad sefydlog y Prif Weithredwr i'r Bwrdd.</p>		
<p><b>6. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 3 2013/14</b></p>	<p>6.1 Cafwyd crynodeb ac eglurhad ar Gyfrifon rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 3 2013/14 gan y Cofrestrydd.</p> <p>6.2 Eglurwyd fod y sefyllfa gyffredinol yn gadarnhaol a nodwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <u>Cynllun Staffio</u>. Eglurwyd bod niferoedd y cynllun staffio a'r cynllun ysgoloriaethau ymchwil yn gallu effeithio ar y gyllideb ond mai gwarged bychan iawn fyddai ar ddiwedd 2013/14.</li> <li>• <u>Prosiectau Cenedlaethol</u>. Eglurwyd y disgwylir i'r gyllideb prosiectau cenedlaethol danwario oherwydd bod y Coleg wedi tynhau'r meini prawf.</li> <li>• <u>Costau Swyddfeydd</u>. Adlewyrchir costau swyddfa newydd Caerdydd yn y gyllideb.</li> </ul> <p>6.3 Cafwyd trafodaeth ar y newidiadau cyfrifo o ran gofynion pensiwn a'r wybodaeth ddiweddaraf gan BUFDG ynghylch costau adfer Cynllun USS. Awgrymwyd neilltuo hyd at £190,550 at y perwyl hwn a derbyn cyngor pellach gan yr Archwilwyr Allanol. Gofynnwyd am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>6.4 Nodwyd yr amcangyfrifir y bydd gwarged o £150,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14 i'w drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.</p> <p>6.5 Cytuwnyd y byddai'r swyddogion yn gwirio'r croniadau negyddol.</p>	<p>Diweddariad i'r pwyllgor am y sefyllfa pensiynau</p> <p>Swyddogion i wirio'r croniadau negyddol</p>	<p>Cyfarfod nesaf</p> <p>Gorffennaf 2014</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>7. Cyllideb y Coleg 2014/15</b>	7.1 Cyflwynwyd Cyllideb y Coleg ar gyfer 2014/15 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd nad oedd newid sylweddol yn y gyllideb ers y drafft a gyflwynwyd i'r pwyllgor ar 18 Chwefror 2014.		
<b>8. Prosesau Tendro</b>	8.1 Cyflwynwyd papur ar brosesau tendro'r Coleg gan y Cofrestrydd. 8.2 Derbyniwyd rhai sylwadau penodol am fanylion gan yr aelodau a chytunwyd i ymgorffori'r rhain mewn dogfen ddiwygiedig 8.3 Yn dilyn trafodaeth cadarnhawyd y Prosesau tendro gan y Pwyllgor.	Addasu'r polisi	Mehfin 2014
<b>9. Penodi Ymgynghorwyr</b>	9.1 Cafwyd trafodaeth ar brosesau'r Coleg ar gyfer penodi ymgynghorwyr. Cytuwnyd nad oedd angen cyflwyno penodiad at sylw'r aelodau os oedd y cyfanswm oedd i'w dalu yn llai na £25,000. 9.2 Argymhellwyd y byddai'n arfer da i Gadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr dderbyn gwybodaeth am benodiadau ymgynghorwyr.		
<b>10. Materion yn Codi</b>	10.1 <u>Eitem 4.3 – Adroddiad yr Archwilwyr mewnol ar ddarlithwyr a'u rôl yn gweithredu amcanion y Coleg</u> Nodwyd bod y swyddogion wedi gweithredu'r argymhellion a godwyd yng nghyfarfod 18 Chwefror 2014. 10.2 <u>Eitem 4.7 – Cylchredeg adroddiad y Porth</u> Cytunwyd i gylchredeg adroddiad y Porth gan y Rheolwr Gwasnaethau Gwybodaeth i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod. 10.3 <u>Eitem 5.2 – Mantolen Barclays</u> Nodwyd bod y swyddogion wedi holi Barclays am yr arfer o ganiatáu i aelodau o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr sydd	Cylchredeg adroddiad y Porth	Mehfin 2014

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>yn gwsmeriaid personol gyda'r banc i gael mynediad i gyfrifon y Coleg ar-lein ac mae dyma oedd polisi'r banc. Adroddwyd, er gwybodaeth, y byddai'r Coleg yn adolygu'r trefniadau bancio o fewn y ddwy flynedd nesaf.</p> <p>10.4 <u>Eitem 6.2 – Swyddfa Caerdydd</u> Nodwyd bod cytundeb tenantiaeth ar gyfer swyddfa'r Coleg yng Nghaerdydd am gyfnod o bum mlynedd.</p>		
<b>11. UFA</b>	<p>11.1 Cafwyd trafodaeth fer ar drefniadau cylchredeg papurau oherwydd trafferthion gafodd rhai aelodau wrth agor atodiadau.</p>		
<b>12. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf</b>	<p>12.1 Nodwyd y byddai'r swyddogion yn cylchredeg dyddiad ar gyfer cyfarfod fis Hydref pe bai angen ac y cynhelir y cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 25 (yh) neu 26 (yb) Tachwedd 2014, Aberystwyth</li> <li>• 3 (yp) Mawrth 2015, Bangor</li> <li>• 16 (yh) neu 17 (yb) Mehefin 2015, Abertawe</li> </ul>		